# Breuddwydion Bregus

## Cast

Chloe

Rosie ( hefyd yn chwarae Swyddog Heddlu)

Katie ( hefyd yn chwarae Athrawes, Mam, Storïwr)

Bethan

Mike (hefyd yn chwarae rôl athro)

Ben

## Golygfa Un

Chloe'n sefyll yn gwbl lonydd efo'i phen i lawr ar ganol y llwyfan. Katy'n wynebu cefn y llwyfan, hefyd yn gwbl lonydd.

Cast — Lager, shots a vodka mawr, yfed ag yfed a disgyn i lawr (y cast yn dawnsio o amgylch Chloe ac yn ailadrodd hyn dair gwaith)

Chloe'n dechrau cerdded ymlaen yn ara' deg heb godi ei phen. Wrth iddi edrych i fyny, y gerddoriaeth yn stopio a'r cast yn stopio dawnsio. Y cast yn edrych tuag at Chloe ac yn dechrau cyfri o 1-9. Katy yn cerdded yn araf at Chloe. Chloe yn meimio cymryd potel o dabledi o'i phoced a'u rhoi nhw yn ei cheg.

Cast — Na!

Katy — Ar yr unfed ar hugain o Ragfyr, 2009, mi wnaeth Chloe drio lladd ei hun. Ei stori hi ydi hon.

Cloch ysgol yn canu i ddynodi newid golygfa. Y cast yn symud i safleoedd newydd.